# LC1257

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The National Health Service (Performers Lists) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Gweithredwyr) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") i'w gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Gwladol gadw rhestrau o bobl sy'n cynnig gofal deintyddol sylfaenol yn eu hardaloedd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r darpariaethau cyffredinol mewn cysylltiad â'r rhestrau a geir yn Rheoliadau 2004 ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth eraill.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7(viii).

Mae'r Rheoliadau hyn yn llunio rhan o gyfres o offerynnau statudol sy'n ategu'r drefn gwasanaethau deintyddol sylfaenol newydd. Parhaodd y trafodaethau â Byrddau Iechyd Lleol a'r proffesiwn deintyddol yn hwy na'r disgwyl. Gan ei fod yn hanfodol sicrhau y caiff y diwygiadau eu gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr o 1 Ebrill 2006, cytunodd y Gweinidog y dylid llunio'r ddeddfwriaeth yn Saesneg yn unig.

## Sylwadau

Mae Rheoliad 12(2)(a) y Rheoliadau hyn yn diwygio NHS Pensions Agency (Asiantaeth Pensiynau'r GIG) Regulations 2004 (SI2004/668). Caiff y Rheoliadau olaf eu dirymu o 1 Ebrill 2006 gan NHS Pensions Agency (Asiantaeth Pensiynau'r GIG) Regulations 2006 h.y. y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Felly, ni fydd rheoliad 12(2)(a) o unrhyw effaith.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 21 Mawrth 2006